OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 1215

Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

RHAN 5

GORFODI A THROSEDDAU

Troseddau: trwyddedau (carcasau buchol)

29.—(1) Os ymgymerir â dosbarthu carcas buchol mewn lladd-dy cymeradwy—

(a) heb drwydded a ganiatawyd o dan reoliad 8, neu

(b) gan dorri unrhyw un neu ragor o amodau neu delerau trwydded o'r fath,

mae'r person sy'n ymgymryd â'r dosbarthu a gweithredwr y lladd-dy hwnnw ill dau'n euog o drosedd.

(2) Os ymgymerir â dosbarthu carcas buchol mewn lladd-dy cymeradwy drwy ddefnyddio offer graddio awtomataidd—

(a) heb drwydded a ganiatawyd o dan reoliad 9 i ddefnyddio'r offer hwnnw yn y lladd-dy hwnnw, neu

(b) gan dorri unrhyw un neu ragor o amodau neu delerau trwydded o'r fath,

mae'r person sy'n ymgymryd â'r dosbarthu hwnnw a gweithredwr y lladd-dy hwnnw ill dau'n euog o drosedd.

(3) Mae unrhyw berson sy'n gwneud newid mewn trwydded a ganiatawyd o dan reoliad 8 neu 9 yn euog o drosedd.